

Os ydych chi'n byw yng Nghymru ac yn dechrau ar gwrs rhan-amser yn 2021/22, yn amodol ar feini prawf argaeledd, byddwch yn gallu gwneud cais i Gyllid Myfyrwyr Cymru ar gyfer eich pecyn ariannu. Os ydych chi'n byw yn Lloegr, gweler [www.gov.uk/student-finance/parttime-students](http://www.gov.uk/student-finance/parttime-students) i gael gwybodaeth.

<p>Pwy all wneud cais</p>	<p>Mae'n rhaid i'ch cyfeiriad cartref fod yng Nghymru ac ni ddylech fod wedi symud yma at ddibenion addysg. At hynny, mae'n rhaid i chi fod:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn wladolyn y DU neu â statws preswlydd sefydlog (sy'n golygu nad oes cyfyngiadau ar ba mor hir y gallwch aros yn y DU)</li> <li>• At hynny, mae'n rhaid eich bod wedi byw yn y DU am o leiaf tair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd eich cwrs</li> </ul> <p>Gallech fod yn gymwys hefyd os ydych:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn ffoadur, neu'n perthyn i ffoadur</li> <li>• Gwladolwr o'r UE, neu berthynas i un, sydd â statws sefydlog neu statws wedi'i setlo ymlaen</li> <li>• Wedi cael 'caniatâd i ddod i'r DU neu aros yma', neu'n perthyn i rywun sydd wedi cael 'caniatâd i ddod i'r DU neu aros yma'</li> <li>• Wedi cael caniatâd yn ôl disgresiwn i aros yn y DU neu'n perthyn i rywun sydd wedi cael caniatâd yn ôl disgresiwn i aros yn y DU</li> <li>• Yn blentyn i rywun sy'n ddinesydd o'r Swistir</li> <li>• Yn blentyn i weithiwr o Dwrci</li> <li>• Yn berson heb wladwriaeth neu'n aelod teulu person heb wladwriaeth</li> </ul>
<p>Ffioedd Dysgu</p>	<p>Mae cost cyrsiau rhan amser yn amrywio yn ôl y modiwlau rydych yn penderfynu eu cymryd. Os ydych yn cymryd 20 credyd neu lai mewn blwyddyn academiaidd, mae'n bosibl mai dim ond ar gyfer y Cynllun Hepgor Ffioedd Dysgu y byddwch yn gymwys. Os ydych yn cymryd 30 credyd neu ragor mewn blwyddyn academiaidd, yn amodol ar feini prawf cymhwys, byddwch yn gallu gwneud cais ar gyfer Benthyciad Ffioedd Dysgu i dalu'r ffioedd.</p> <p>*Mae prisiau modiwlau'n amrywio, felly holwch Addysg Barhaus a Phroffesiynol am yr union gost. Rhaid i chi wneud cais am y Benthyciad Ffioedd Dysgu cywir i dalu am gost eich modiwlau.</p>
<p>20 Credyd neu lai - y Cynllun Hepgor Ffioedd</p>	<p>I fod yn gymwys ar gyfer Cynllun Hepgor Ffioedd Dysgu CCAUC fel myfyriwr newydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ni ddylai fod gennych gymhwyster Addysg Uwch ac</li> <li>• Mae'n rhaid i chi fod yn hawlio buddiannau penodol yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) ac</li> <li>• Ni ddylech fod yn astudio mwy nag 20 o greydau mewn blwyddyn academiaidd (Medi 2021 hyd at Fehefin 2022)</li> </ul> <p>Bydd y ffurflen ar gael ym mis Awst 2021 oddi wrth yr adran Addysg Barhaus a Phroffesiynol.</p>

Ydych chi wedi astudio o'r blaen?	Os ydych chi wedi astudio o'r blaen, fel arfer, ni fyddwch yn gallu cael cyllid myfyrwyr os oes eisoes gennych radd Anrhydedd. Gellir ystyried unrhyw gyfnod o astudio yn y gorffennol, yn cynnwys blynyddoedd a ddechreuoch ond na wnaethoch eu gorffen, wrth gyfrifo'r hyn y bydd gennych yr hawl iddo.
-----------------------------------	---

<p>Manylion y Cwrs</p>	<p>Mae'n rhaid i fanylion y cwrs ar gyfer <b>pob un</b> o gyrsiau Datblygiad Parhaus a phroffesiynol fod fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Enw'r Brifysgol neu'r Coleg: Prifysgol Caerdydd</li> <li>• Enw'r Cwrs: <b>Tystysgrif Addysg Uwch (LEARN)</b></li> <li>• Y cymhwyster rydych yn disgwyl ei ennill: <b>Cert AU</b></li> <li>• Cyfeiriad y Brifysgol neu'r Coleg: Addysg Barhaus a Phroffesiynol, Ffordd Senghennydd, Caerdydd, CF24 4AG</li> </ul> <p>Sylwer, <b>ni</b> dderbynnir manylion unrhyw gyrsiau eraill.</p>																																													
<p>Sut i wneud cais</p>	<p>Fe'ch anogir i wneud cais ar-lein yn y wefan ganlynol:  <a href="http://www.studentfinancewales.co.uk">www.studentfinancewales.co.uk</a></p> <p>Bydd modd i chi wneud cais o fis Gorffennaf 2021 ymlaen. Dylech wneud cais cyn gynted â phosibl fel bod yr arian ar gael ar ddechrau eich cwrs.</p> <p>Bydd yn rhaid i chi anfon prawf o bwy ydych i Gyllid Myfyrwyr Cymru. Os oes gennych basbort dilys o'r DU, byddwch yn gallu cyflwyno'r manylion ar eich cais ar-lein.</p> <p>Os nad oes gennych basbort o'r DU bydd yn rhaid i chi anfon dogfennaeth wreiddiol i Gyllid Myfyrwyr Cymru. Bydd y rhain yn cael eu dychwelyd atoch.</p> <p>Os na allwch wneud cais ar-lein bydd angen i chi lenwi ffurflen PTMN (gellir lawrlwytho hwn o wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru).</p>																																													
<p>Cyllid ar gyfer Costau Byw</p>	<p>Mae'r cynllun y byddwch yn gymwys ar ei gyfer yn dibynnu ar ba mor ddwys yw eich cwrs, ac incwm eich aelwyd hefyd. Mae rhai enghreifftiau isod:</p> <table border="1" data-bbox="395 1131 1457 1758"> <thead> <tr> <th>Pa mor ddwys yw'r cwrs</th> <th>Incwm yr Aelwyd</th> <th>Grant Dysgu Llywodraeth Cymru</th> <th>Benthyciad Cynhaliath</th> <th>Cyfanswm</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>75%</td> <td>£25,000 neu lai</td> <td>£4,500</td> <td>£1,230</td> <td>£5,730</td> </tr> <tr> <td>75%</td> <td>£59,200 (+)</td> <td>£750</td> <td>£4,980</td> <td>£5,730</td> </tr> <tr> <td>50%</td> <td>£25,000 neu lai</td> <td>£3,000</td> <td>£820</td> <td>£3,820</td> </tr> <tr> <td>50%</td> <td>£30,000</td> <td>£2,635</td> <td>£1,185</td> <td>£3,820</td> </tr> <tr> <td>50%</td> <td>£40,000</td> <td>£1,904</td> <td>£1,916</td> <td>£3,820</td> </tr> <tr> <td>50%</td> <td>£59,200 (+)</td> <td>£500</td> <td>£3,320</td> <td>£3,820</td> </tr> <tr> <td>25%</td> <td>£25,000 neu lai</td> <td>£1,500</td> <td>£410</td> <td>£1,910</td> </tr> <tr> <td>25%</td> <td>£59,200 (+)</td> <td>£250</td> <td>£1,660</td> <td>£1,910</td> </tr> </tbody> </table>	Pa mor ddwys yw'r cwrs	Incwm yr Aelwyd	Grant Dysgu Llywodraeth Cymru	Benthyciad Cynhaliath	Cyfanswm	75%	£25,000 neu lai	£4,500	£1,230	£5,730	75%	£59,200 (+)	£750	£4,980	£5,730	50%	£25,000 neu lai	£3,000	£820	£3,820	50%	£30,000	£2,635	£1,185	£3,820	50%	£40,000	£1,904	£1,916	£3,820	50%	£59,200 (+)	£500	£3,320	£3,820	25%	£25,000 neu lai	£1,500	£410	£1,910	25%	£59,200 (+)	£250	£1,660	£1,910
Pa mor ddwys yw'r cwrs	Incwm yr Aelwyd	Grant Dysgu Llywodraeth Cymru	Benthyciad Cynhaliath	Cyfanswm																																										
75%	£25,000 neu lai	£4,500	£1,230	£5,730																																										
75%	£59,200 (+)	£750	£4,980	£5,730																																										
50%	£25,000 neu lai	£3,000	£820	£3,820																																										
50%	£30,000	£2,635	£1,185	£3,820																																										
50%	£40,000	£1,904	£1,916	£3,820																																										
50%	£59,200 (+)	£500	£3,320	£3,820																																										
25%	£25,000 neu lai	£1,500	£410	£1,910																																										
25%	£59,200 (+)	£250	£1,660	£1,910																																										
<p>Cymorth Ariannol Ychwanegol</p>	<p>At hynny, gallai arian ychwanegol fod ar gael i rai myfyrwyr, yn dibynnu ar eu hamgylchiadau.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>■ Lwfans Dibynyddion</li> <li>■ Grant Gofal Plant</li> <li>✓ Lwfans Dysgu Rhieni</li> <li>✓ Grant Dibynyddion sy'n Oedolion</li> </ul> <p>I wneud cais am Fenthyciadau Dibynyddion, bydd angen i chi lawrlwytho ffurflen PTGFD, i wneud cais ar gyfer y Grant Gofal Plant, bydd angen i chi lawrlwytho ffurflen PTCCG1. Mae'r ffurflenni hyn ar gael i'w lawrlwytho yn <a href="http://www.studentfinancewales.co.uk">www.studentfinancewales.co.uk</a>,</p>																																													

Lwfansau i Fyfyrrwyr Anabl	<p>Mae'r Lwfansau i Fyfyrrwyr Anabl yn helpu i dalu unrhyw gostau ychwanegol sydd gennych o ganlyniad i'ch anabledd, yn cynnwys cyflwr iechyd hirdymor neu anhawster dysgu penodol, fel dyslecsia neu ddyspracsia.</p> <p>Gall y lwfansau eich helpu â'r gost o gael person i ofalu amdanoch, cyfarpar arbenigol, teithio neu gostau eraill sy'n gysylltiedig ag astudio. Mae'n rhaid eich bod yn astudio cwrs â dwyster sy'n o leiaf 25% i gael y Lwfansau. Nid yw'r gefnogaeth hon yn amodol ar brawf modd.</p> <p>I wneud cais, dylech lawrlwytho ffurflen DSA1 o <a href="http://www.studentfinancewales.co.uk">www.studentfinancewales.co.uk</a>, ei llenwi a'i dychwelyd at Gyllid Myfyrrwyr Cymru.</p> <p>Os oes angen help arnoch i wneud cais ar gyfer Lwfansau i Fyfyrrwyr Anabl, cysylltwch â Jill Baird – BairdJF1@caerdydd.ac.uk</p>												
Manteision	<p>Fel myfyriwr rhan-amser, fel arfer, byddwch yn dal i allu hawlio budd-daliadau sy'n dibynnu ar incwm eich aelwyd, os ydych yn dal i fodloni telerau ac amodau'r budd-daliadau hynny. Ni fydd y Ganolfan Byd Gwaith nac adran fudd-daliadau eich awdurdod lleol yn ystyried y Benthyciad Ffioedd Dysgu, Grant Dysgu Llywodraeth Cymru neu'r Lwfansau i Fyfyrrwyr Anabl fel bod yn incwm wrth asesu unrhyw fudd-dal sy'n seiliedig ar asesiad o incwm.</p>												
Ad-daliadau	<p>Disgwylir i chi ddechrau ad-dalu eich benthyciadau i fyfyrrwyr (ffioedd dysgu a benthyciadau cynnal) y mis Ebrill ar ôl i chi orffen neu adael eich cwrs, neu'r mis Ebrill bedair blynedd ar ôl dechrau eich cwrs, pa bynnag un sydd gyntaf.</p> <p>Byddwch ond yn dechrau gwneud ad-daliadau os yw eich incwm dros y trothwy ad-dalu. Ar hyn o bryd, £27,295 y flwyddyn, £2,274 y mis, neu £524 yr wythnos yw trothwy'r DU. Mae rhai enghreifftiau isod:</p> <table border="1" data-bbox="376 1077 1453 1402"> <tr> <td>£27,295</td> <td>£2,274</td> <td>£0</td> </tr> <tr> <td>£30,000</td> <td>£2,500</td> <td>£20</td> </tr> <tr> <td>£35,000</td> <td>£2,916</td> <td>£58</td> </tr> <tr> <td>£40,000</td> <td>£3,333</td> <td>£95</td> </tr> </table> <p>£35,000                      £2,916                      £58</p> <p>£40,000                      £3,333                      £95</p>	£27,295	£2,274	£0	£30,000	£2,500	£20	£35,000	£2,916	£58	£40,000	£3,333	£95
£27,295	£2,274	£0											
£30,000	£2,500	£20											
£35,000	£2,916	£58											
£40,000	£3,333	£95											
Cyfraddau Llog	<p>Codir llog ar fenthyciadau myfyrrwyr o'r diwrnod y caiff taliadau eu gwneud naill ai i chi neu i'r Brifysgol, nes bod y benthyciad wedi'i ad-dalu'n llawn neu wedi'i ganslo. Caiff unrhyw fenthyciad sy'n parhau i fod heb ei ad-dalu ar ôl 30 blynedd ei ddiddymu.</p> <p>Mae'r gyfradd llog yn seiliedig ar Fyngai Prisiau Manwerthu (RPI) y DU a bydd yn amrywio yn ôl eich amgylchiadau. Caiff y gyfradd llog ei diweddarau unwaith y flwyddyn ym mis Medi gan ddefnyddio'r ffigur RPI o fis Mawrth y flwyddyn honno.</p> <p>O fis Medi 2021 ymlaen, 4.5% fydd y gyfradd llog.</p> <p>Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan <a href="#">Ad-dalu Benthyciadau Myfyrrwyr</a>.</p>												

I gael gwybodaeth gyffredinol, ebostiwch [learn@caerdydd.ac.uk](mailto:learn@caerdydd.ac.uk)

Os oes gennych ymholiad cymhleth am eich cymhwysedd i gael cyllid myfyrrwyr, cysylltwch â'r Tîm Cyngor ac Arian drwy e-bostio [studentconnect@caerdydd.ac.uk](mailto:studentconnect@caerdydd.ac.uk)

Tîm Cyllid a Chyngor i Fyfirwyr  
Cefnogi Myfirwyr, Canolfan Bywyd y Myfirwyr, Plas y  
Parc, Cathays, Caerdydd, CF10 3BB

Ffôn: +44 (0) 29 2251 8888  
Dewis 5